

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhian Birch, Lisa Lewis, Sam Mawhinney, Anne Robertson, Rhian Andrew, Ceri Thomas, Natasha Burton, James Mansfield

**YMDDIHEURIADAU:** Rebecca Morteo, Jane Werrett, Mike Matthews, Sian Lewis, Ceri Hunt, Charlotte Robin

<b>EITEM</b>	<b>MATER</b>	<b>CAMAU I'W CYMRYD</b>	<b>Aelod</b>
1	Ymddiheuriadau	Nodwyd yr ymddiheuriadau	
2	Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir.	
3	Materion yn codi	<p>Cyflwynodd S.M James Mansfield fyddai'n cymryd lle Trevor Brown.</p> <p>Dyweddodd S.M hefyd am 2 aelod newydd arall i'r fforwm, Charlotte Robins yn lle Cedric Burden a Ceri Hunt yn lle Amanda Malkin. Yn anffodus, roedd y ddau yn methu â mynychu'r cyfarfod.</p> <p>Nododd y Cynghorydd Birch ei bod wedi cael gwybod y gallai datblygwyr tai fod yn darparu gwybodaeth ffug am argaeledd lleoedd ysgol i ddarpar brynwyr. S.M i ddrafftio gohebiaeth i'w hanfon at bob datblygwr gyda gwybodaeth berthnasol a manylion cyswllt ar gyfer y tîm Derbyn i Ysgolion.</p>	
4	Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth er gwybodaeth (SM)	<p>Ystyriwyd y cylch gorchwyl, argymhellodd A.R fod lleoliad y cyfarfodydd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r dewis i gwrdd o bell lle bynnag y bo modd.</p> <p>Dyweddodd S.M fod J.W yn gymwys i gael ei ailethol ond bydd yn ymgynghori â J.W i benderfynu a allai cynrychiolydd fod yn opsiwn gwell oherwydd argaeledd J.W i fod yn bresennol.</p>	
5	Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (NS)	<p>Rhoddodd N.B ddiweddariad am yr holl brosiectau presennol a phrosiectau wedi'u cwblhau – Y Ganolfan Dysgu a Lles, Ysgol Gynradd y Bontfaen, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Ymestyn YYD, Ysgol Sant Baruc, Derw Newydd ac Ysgol Iolo Morgannwg.</p> <p>Prosiectau yn y dyfodol fel ysgol ffydd 11-16 ac Ysgol Gynradd Gymraeg yn ardal Penarth.</p> <p>Adolygiad o'r rhaglen dreigl sydd ar y gweill ar gyfer y 9-12 mlynedd nesaf.</p> <p>Cwestiynodd C.T y rhaglen dreigl ac a oedd arolygon cynaliadwyedd ar y trywydd iawn i'w</p>	

EITEM	MATER	CAMAU I'W CYMRYD	Aelod
		cynnal yn ystod tymor yr haf 23 a chafodd ei sicrhau y byddent.	
6	Diweddariad ar y rowndiau derbyn blynyddol ac apeliadau (SM)	Aeth SM drwy'r crynodeb derbyniadau ysgolion ar gyfer 2023 oedd yn cynnwys derbyniadau i ddsbarthiadau meithrin, derbyn ac i ysgolion uwchradd. Amlygodd SM ardaloedd llwyddiant penodol a gyflawnodd y tîm trwy eu hymdrechion yn ogystal ag unrhyw ardaloedd sy'n peri pryder o ran y galw am leoedd nawr ac yn y dyfodol. Rhoddodd SM fanylion apeliadau a gafodd eu clywed/ sydd i'w cynnal ar gyfer pob rownd dderbyn a'r cyfraddau llwyddiant gan gymharu â blynyddoedd blaenorol hefyd.	
7	Ddata perfformiad blynyddol ar dderbyn i ysgolion (SM)	Amlinellodd SM grynoded o dderbyniadau ysgol yn ystod y flwyddyn a sut roedd y tîm yn rheoli'r galw am grwpiau blwyddyn penodol yn y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd. Rhoddodd SM fanylion apeliadau a gafodd eu clywed a'r cyfraddau llwyddiant, gan gymharu â blynyddoedd blaenorol hefyd.	
8	Canllaw rhieni drafft ar dderbyn i ysgolion 2024/25 i'w ystyried (MM/SM)	Mae S.M yn esbonio'r defnydd o'r canllaw rhieni a'r diweddariadau lleiaf posibl fydd yn cael eu gwneud ar gyfer 24/25 ac yn cynghori, ar ôl newidiadau i dalgylchoedd a meini prawf mewn blynyddoedd blaenorol, ei bod bellach yn bryd myfyrio ar effeithiau'r newidiadau wrth adolygu data disgyblion. Aelodau i ddarllen a rhoi adborth.	
9	Diweddariad ar drefniadau derbyn cydlynol (MM/SM)	Mae S.M yn esbonio bod y trefniadau derbyn cydlynol yn eu 5 <sup>ed</sup> blwyddyn gweithredu ar gyfer derbyniadau cynradd a'u 3 <sup>edd</sup> flwyddyn ar gyfer derbyniadau Uwchradd. Croesawodd S.M y ffaith fod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint yn cymryd rhan ar gyfer derbyniadau 23/24 a nododd fod Ysgol Gynradd Gatholig San Helen yn ystyried ymuno ar gyfer proses dderbyniadau 2024/25. Mae S.M yn rhoi sylwadau ar lwyddiant y cynllun peilot o safbwynt ysgol sy'n cymryd rhan a'r tîm derbyn ac yn diolch i bawb sydd yn cymryd rhan am eu hymdrechion.	
10	Diweddariad am Ffoaduriaid Wcráin (LL)	Dywedodd L.L fod y grwpiau cymorth yn parhau i fod ar gael ac yn gweithio'n effeithlon i gefnogi'r teuluoedd hynny yn yr ardal leol. Dywedodd L.L fod nifer y teuluoedd sy'n adleoli i'r ardal wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ac nad ydynt wedi derbyn unrhyw ddiweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag unrhyw adsefydlu newydd.	

<b>EITEM</b>	<b>MATER</b>	<b>CAMAU I'W CYMRYD</b>	<b>Aelod</b>
11	Dyddiad y cyfarfod nesaf	Gofynnodd L.L i'r aelodau am unrhyw ddyddiadau/diwrnodau dewisol ar gyfer cynnal y cyfarfod. Dyddiad arfaethedig – Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023	
10	Unrhyw Fater Arall	Dim sylwadau	